

## 2011 Rhif 700 (Cy. 107)

### BWYD, CYMRU

#### Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) (Diwygio) 2011

##### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn trosi Cyfarwyddeb y Comisiwn 2009/106/EC sy'n diwygio Cyfarwyddeb y Cyngor 2001/112/EC ynglŷn â suddoedd ffrwythau a chynhyrchion tebyg penodol sydd wedi eu bwriadu ar gyfer eu hyfed gan bobl (OJ Rhif L212, 15.8.2009, t.42).

Mae Cyfarwyddeb y Comisiwn 2009/106/EC yn gwneud dau ddiwygiad i Gyfarwyddeb y Cyngor 2001/112/EC (OJ Rhif L10, 12.1.2002, t.58). Yn gyntaf, mae'n gwneud newid ieithyddol bach mewn perthynas â chynhyrchion sudd cymysg sy'n cynnwys sudd ffrwythau a suddoedd ffrwythau o ddwysfwyd ac mewn perthynas â neithdarau a gafwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o un neu fwy o gynhyrchion dwysedig, er mwyn lleddfu ar anawsterau cyfieithu ledled Aelod-wladwriaethau'r UE. Yn ail, mae'n cyflwyno tabl sy'n gosod y lefelau Brix gofynnol ar gyfer suddoedd ffrwythau o ddwysfwyd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2003 (O.S. 2003/3041 (Cy.286)), er mwyn—

- (a) darparu bod rhaid i sudd ffrwythau o ddwysfwyd gynnwys y lefelau Brix gofynnol a bennir yn Atodlen 6, o'u darllen ynghyd â'r Nodiadau i'r Atodlen honno (rheoliad 2(2) a'r Atodlen) (mae lefelau Brix yn darparu mesur o ansawdd drwy osod solidau toddadwy (cynnwys siwgr) gofynnol ar gyfer suddoedd ffrwythau);
- (b) gwneud newid ieithyddol bach i labelu a disgrifio cynhyrchion sudd cymysg sy'n cynnwys sudd ffrwythau a suddoedd ffrwythau o ddwysfwyd, a neithdarau a

gafwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o un neu fwy o gynhyrchion dwysedig (rheoliad 2(3));

- (c) diwygio Atodlen 1 (Disgrifiadau Neilltuedig ar gyfer Cynhyrchion Dynodedig) fel bod eitem 3 (Fruit juice from concentrate) o Atodlen 1 yn croesgyfeirio at Atodlen 6 (Y Lefelau Brix Gofynnol ar gyfer Suddoedd Ffrwythau o Ddwysfwyd) (rheoliad 2(4)(a) a'r Atodlen);
- (ch) diwygio Atodlen 1 fel bod cyfeiriad anghywir o fewn eitem 5 (Fruit nectar) yn cael ei gywiro (rheoliad 2(4)(b));
- (d) ychwanegu fel Atodlen 6, Atodlen newydd sy'n darparu 'Y Lefelau Brix Gofynnol ar gyfer Suddoedd Ffrwythau o Ddwysfwyd' (rheoliad 2(5) a'r Atodlen).

Mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei baratoi ynghylch y costau a buddion tebygol o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Tŷ Southgate, Caerdydd, CF10 1EW.

## 2011 Rhif 700 (Cy.107)

### BWYD, CYMRU

#### Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) (Diwygio) 2011

*Gwnaed* 8 Mawrth 2011

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 10 Mawrth 2011

*Yn dod i rym* 31 Mawrth 2011

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(a) ac (e), 17(1) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(1) ac sydd bellach wedi eu breinio(2) ynddynt hwy.

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, maent wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn

- 
- (1) 1990 p.16. Amnewidwyd adran 1(1) a (2) (y diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adrannau 16, 17 a 48 gan adran 40(1) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p.28) ("Deddf 1999") a pharagraffau 7 ac 8 o Atodlen 5 iddi. Diwygiwyd adran 17 hefyd gan adran 40(1) o Ddeddf 1999 a pharagraff 12 o Atodlen 5 iddi. Diwygiwyd adran 48 hefyd gan adran 40(1) o Ddeddf 1999 a pharagraff 21 o Atodlen 5 iddi, a chan O.S. 2004/2990..
- (2) Cafodd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers" (sef, mewn perthynas â Chymru a Lloegr ac yn gweithredu ar y cyd, y Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a'r Ysgrifenyddion Gwladol sy'n ymwneud yn eu tro ag iechyd yn Lloegr a bwyd ac iechyd yng Nghymru, ac, mewn perthynas â'r Alban, yr Ysgrifennydd Gwladol), i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999, a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi (2006 p.32).

sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(1), cafwyd ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

### **Enwi, cychwyn a chymhwysu**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Suldoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) (Diwygio) 2011, a deuant i rym ar 31 Mawrth 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### **Diwygio Rheoliadau Suldoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2003**

2.—(1) Mae Rheoliadau Suldoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2003(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (2) o reoliad 2—

- (a) ar ddiwedd is-baragraff (ch), hepgorer y gair “a”;
- (b) ar ddiwedd is-baragraff (d), rhodder “; ac” yn lle'r atalnod llawn; ac
- (c) ar ôl is-baragraff (d) mewnosoder—

“(dd) ac yntau'n fwyd ac iddo'r disgrifiad neilltuedig “fruit juice from concentrate”, os yw'n cydymffurfio â'r lefel Brix ofynnol a bennir yn Atodlen 6, o'i darllen ynghyd â'r Nodiadau i'r Atodlen honno.”.

(3) Yn rheoliad 5—

(a) yn lle paragraff (ch) rhodder—

“(ch) yn achos—

- (i) cymysgedd o sudd ffrwythau a sudd ffrwythau o ddwysfwyd sydd wedi ei farcio neu wedi ei labelu â'r un disgrifiad neilltuedig “fruit juice” (neu ddisgrifiad arall o'r fath y mae'n ofynnol ei gael yn lle'r disgrifiad “fruit juice” yn unol â'r amodau sy'n rhagflaenu Colofn 1 (disgrifiadau neilltuedig) yn Atodlen 1), neu
- (ii) neithdar ffrwythau a gafwyd yn rhannol o un neu fwy o gynhyrchion dwysedig,

---

(1) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 (OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14).

(2) O.S. 2003/3041 (Cy.286); fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/3254 (Cy.247), 2009/3377 (Cy.299) a 2009/3378 (Cy.300).

bod ei labelu yn dwyn y geiriau “partially from concentrate” neu, yn ôl y digwydd, “partially from concentrates”, bod y geiriau hynny'n ymddangos yn agos at y disgrifiad neilltuedig, mewn llythrennau y gellir eu gweld yn eglur ac y gellir eu gwahaniaethu'n hawdd oddi wrth eu cefndir;”; a

(b) yn lle paragraff (d) rhodder—

“(d) yn achos neithdar ffrwythau a gafwyd yn gyfan gwbl o un neu fwy o gynhyrchion dwysedig, y mae ei labelu yn dwyn y geiriau “from concentrate” neu, yn ôl y digwydd, “from concentrates”, a bod y geiriau hynny'n ymddangos yn agos at y disgrifiad neilltuedig, mewn llythrennau y gellir eu gweld yn eglur ac y gellir eu gwahaniaethu'n hawdd oddi wrth eu cefndir;”.

(4) Yn Atodlen 1—

(a) yng ngholofn 2 o eitem 3 (Fruit juice from concentrate), mewnosoder ar y diwedd—

“Mae'r lefelau Brix gofynnol ar gyfer suddoedd ffrwythau o ddwysfwyd wedi eu nodi yn Atodlen 6.”; a

(b) yng ngholofn 2 o eitem 5 (Fruit nectar), yn lle “Atodlen 4” rhodder “Atodlen 5” yn y naill le a'r llall.

(5) Ar ôl Atodlen 5, mewnosoder Atodlen 6 fel y mae wedi ei osod yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

*Gwenda Thomas*

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau  
Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog dros  
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o  
Weinidogion Cymru

8 Mawrth 2011

**Y LEFELAU BRIX GOFYNNOL AR GYFER SUDDOEDD  
FFRWYTHAU O DDWYSFWYD**

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>	<i>Colofn 3</i>
<i>Enw Cyffredin y Ffrwyth</i>	<i>Yr Enw Botanegol</i>	<i>Y lefel gradd Brix ofynnol ar gyfer suddoedd ffrwythau o ddwysfwyd (h.y. ar gyfer sudd ffrwythau ailansoddedig a phiwri ffrwythau ailansoddedig)</i>
Afal (*)	<i>Malus domestica</i> Borkh.	11.2
Bricyll (**)	<i>Prunus armeniaca</i> L.	11.2
Banana (**)	<i>Musa sp.</i>	21.0
Cyrains duon (*)	<i>Ribes nigrum</i> L.	11.6
Grawnwin (*)	<i>Vitis vinifera</i> L. neu hybridiau ohono <i>Vitis labrusca</i> L. neu hybridiau ohono	15.9
Grawnffrwyth (*)	<i>Citrus x paradise</i> Macfad.	10.0
Gwafa (**)	<i>Psidium guajava</i> L.	9.5
Lemon (*)	<i>Citrus limon</i> (L.) Burm.f.	8.0
Mandarin (*)	<i>Citrus reticulata</i> Blanco	11.2
Mango (**)	<i>Mangifera indica</i> L.	15.0
Oren (*)	<i>Citrus sinensis</i> (L.) Osbeck	11.2
Ffrwyth y Dioddefaint (*)	<i>Passiflora edulis</i> Sims	13.5
Eirin gwlanog (**)	<i>Prunus persica</i> (L.) Batsch var. <i>Persica</i>	10.0
Gellyg (**)	<i>Pyrus communis</i> L.	11.9
Pinafal (*)	<i>Ananas comosus</i> (L.) Merr.	12.8
Mafon (*)	<i>Rubus idaeus</i> L.	7.0
Ceirios Sur (*)	<i>Prunus cerasus</i> L.	13.5
Mefus (*)	<i>Fragaria x ananassa</i> Duch.	7.0

**Nodiadau:**

- Os yw sudd o ddwysfwyd wedi ei weithgynhyrchu o ffrwyth nad yw wedi ei grybwyll yn y rhestr uchod, lefel Brix y sudd fel y'i hechdynnwyd o'r ffrwyth a ddefnyddiwyd i wneud y dwysfwyd fydd lefel Brix ofynnol y sudd ailansoddedig.
- Yn achos y cynhyrchion hynny sydd wedi eu marcio â seren (\*), ac sydd wedi eu cynhyrchu fel sudd, penderfynir dwysedd cymharol ofynnol fel y cyfryw mewn perthynas â dŵr sy'n 20/20°C.
- Yn achos y cynhyrchion hynny sydd wedi eu marcio â dwy seren (\*\*), ac sydd wedi

eu cynhyrchu fel piwrî, dim ond darlleniad Brix gofynnol nas cywirwyd (heb ei gywiro ar gyfer asidedd) a benderfynir.

4. Mewn cysylltiad â chyrains duon, gwafa, mango a ffrwyth y dioddefaint, dim ond i sudd ffrwythau ailansoddedig a phiwrî ffrwythau ailansoddedig sydd wedi eu cynhyrchu yn yr UE y mae'r lefelau gradd Brix gofynnol yn gymwys.”